Polisi y Cyfnod Sylfaen

Nod

Sicrhau bod pob plentyn ifanc yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol.

Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid

Amcanion

Drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mae'r ysgol yn anelu at:

- sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei wreiddio'n gadarn, ac yn chwarae rhan flaenllaw yn yr addysgu a'r dysgu
- godi safonau cyflawni a chyraeddiadau plant
- sicrhau agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- mynd i'r afael ag anghenion datblygu plant
- datblygu hyder a hunan ddelwedd pob plentyn a'i gynorthwyo i ddatblygu fel unigolyn
- meithrin plant annibynnol
- galluogi y plant i elwa o gyfleoedd addysgol pan yn hŷn
- eu cynorthwyo i ddatblygu'n ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau
- cydnabod bod **sut** y mae plant yn dysgu mor bwysig a **beth** a ddysgir iddynt
- eu helpu i ddysgu sut i ddysgu

Canllawiau

- sicrhau bod dysgu drwy chwarae wrth wraidd y cwricwlwm
- darparu amgylchedd ysgogol a diddorol sydd yn annog y plant i chwarae ac archwilio dan do a thu allan
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu i gynnal, ysgogi a herio
- sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau a ysgogir gan y plentyn a gweithgareddau sydd dan arweiniad oedolion
- cynnwys plant wrth gynllunio, datblygu ac adolygu eu gwaith
- gwerthfawrogi ac adeiladu ar brofiadau a gwybodaeth blaenorol y plant
- datblygu sgiliau meddwl a meithrin dysgwyr annibynnol
- rhoi pwyslais ar datblygu sgiliau gwrando a siarad er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer darllen ac ysgrifennu
- sicrhau amser i blant gadarnhau eu dysgu
- datblygu sgiliau drwy ystod amrywiol o ddiddordebau y plant

Y Cwricwlwm a'r Amgylchedd Dysgu

Mae chwarae/dysgu gweithredol wrth wraidd y cwricwlwm. Anelir at ddarparu cwricwlwm eang, perthnasol a chyfannol drwy y meysydd dysgu a osodir yn 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru' (LlCC).

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- *Datblygu'r Gymraeg (nid yw'n berthnasol i ni)*
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Mae cynllun i ddatblygu'r gofod tu allan wedi ei ddatblygu a'i gytuno gyda'r AALl. Hyd nes y bydd yn barod, defnyddiwn ardal yng nghefn yr ysgol i sicrhau profiadau dysgu tu allan mor ysgogol â'r rhai dan dô. Gwerthfawrogir y dysgu a'r cyflawniad os yw'n digwydd dan do neu tu allan.

Cynllunio tymor canolig

- Pob thema yn para tua hanner tymor (dim angen bod yn gaeth i hyn – dilyn 'llais y plentyn')
- Dewis stori gychwynnol i'r thema
- Penderfynu ar weithgareddau posib yn yr ardaloedd dysgu.

Cynllunio tymor byr (wythnosol)

- Gweithgareddau a thasgau'r ardaloedd
- Tasgau ffocws a thaflen cofnodi 'Heriau'
- Llyfr Cofnodi cymorthyddion

Arsylwi a Chofnodi Cynnydd

- Arsylwi dyddiol/wythnosol – nodir ar y taflenni Heriau / targedau unigol / llyfr cofnodion unrhyw sylwadau perthnasol i bob plentyn.
- Cadw samplau o luniau / ffotograffau yn dymhorol yn ffeiliau personol y plant
- Cydweithio agos rhwng yr athrawes ddosbarth a'r cymorthyddyddion.

Cyswllt â'r cartref

- Darllen wythnosol – bob penwythnos
- Unrhyw waith dysgu achlysurol e.e gwasanaeth diolchgarwch
- Ffotograffau / llyfrau lloffion / 'slide show' ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Adrodd i rieni

- Noson rhieni bob tymor – cyfle i weld a thrafod gwaith y plant hefo'r athrawes a gweld y dosbarth
- Adroddiad ddiwedd blwyddyn

Rôl Cymhorthydd

- I hybu a chynorthwyo hefo gwaith y dosbarth drwy'r meysydd dysgu

- I arsylwi ar ddatblygiad a diogelwch y plant tu mewn neu tu allan
- Siarad, trafod a chwestiynnu pwrpasol ac adeiladol hefo'r plant
- Annog cyd chwarae a chyd weithio effeithiol
- Asesu ar y pryd trwy arsylwi unrhyw weithgaredd ar draws y meysydd dysgu
- Bod yn rhan o dîm effeithlon y dosbarth Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau rhwyddineb gwaith a chwarae

Polisi Y Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Idris	
Mabwysiadwyd ddiwethaf: Corff Llywodraethol Ysgol Bro Idris, 3ydd o Orffennaf 2017	
Dyddiad mabwysiadu nesaf: Tymor yr Haf 2020	
Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol: H.W Jones	
Dyddiad: 3/7/2017	
Llofnod y Pennaeth Strategol: J.Owen	
Dyddiad: 3/7/2017	